# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwiliad craffu i ystyried cyflwyno dirwy i drigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir ac sy'n gadael y cynhwysydd/biniau gwastraff ac ailgylchu allan ar y stryd drwy'r adeg. Mae sawl rhan o Wynedd yn dioddef yn sgil problemau a achosir gan bobl sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir.

Mae'r ddeddfwriaeth ar orfodaeth gwastraff wedi ei chynnwys yn Neddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd o fudd i'r Cyngor wrth daclo problemau gwastraff ar dir yn gyffredinol, gan gynnwys cynhwysyddion gwastraff (adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB).

Dyma'r rhannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol hefo cynhwysyddion gwastraff ac felly sydd fwyaf perthnasol i waredu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir:

- Adran 46: cynhwysyddion gwastraff tŷ
- Adran 47: cynhwysyddion gwastraff masnachol neu ddiwydiannol
- Adran 47ZA: rhybuddion cosb benodedig
- Adran 47ZB: swm y rhybudd cosb o dan adran 47ZA

Mae gan y Cyngor hawl i gymryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff o dan Adrannau 46/47 o'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. O dan y Ddeddf, gellir cymryd achos a gosod dirwyon lle mae:

i) Cynhwysydd allan ar y diwrnod anghywir
ii) Cynhwysydd allan yn y lleoliad anghywir
iii) Cynhwysydd allan ar y stryd drwy'r adeg
iv) Gormod o wastraff i'r cynhwysydd
v) Gwastraff yn y cynhwysydd anghywir.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Steffan Jones, Pennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Tachwedd 2018.
Fersiwn 1

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

- Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Cynghorwyr Cyngor Gwynedd
- Trigolion Gwynedd
- Busnesau Gwynedd

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Fel rhan o'r ymchwiliad, mae'r Gweithgor wedi cynnal ymweliadau safle er mwyn casglu tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol. Wrth gasglu tystiolaeth, rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda myfyrwyr Prifysgol Bangor, pobl sy'n byw gyda dementia, a phobl hŷn.

Hefyd mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus "Beth sy'n bwysig i chi" ac wedi ymgysylltu gyda nifer o grwpiau gyda nodweddion cydraddoldeb fel rhan o'r prosiect yma. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan pobl Gwynedd ar y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu ac mae canlyniadau'r ymarferiad i'w gweld yma

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Fel Cyngor, rydym wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ynglŷn â barn trigolion ar y trefniadau gwastraff ac ailgylchu, a gasglwyd fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu "Beth sy'n bwysig i chi" yn ystod Hydref 2018.

Derbyniwyd 2,478 o ymatebion gan unigolion i'r holiadur a fanteisiodd 38 o sefydliadau / busnesau ar y cyfle i lenwi holiadur. Cyflwynwyd 59 o opsiynau i'w gosod mewn un o 5 categori sef mwyaf pwysig, pwysig iawn, pwysig, eithaf pwysig a lleiaf pwysig. Er mwyn dadansoddi'r dewisiadau, rhoddwyd sgôr o 5 i'r gwasanaethau "mwyaf pwysig" i lawr i sgôr o 1 i'r gwasanaethau roedd wedi cael eu sgorio'r lleiaf pwysig. Cymerwyd sgôr cyfanswm yr holl ymatebion ar gyfer pob gwasanaeth i'n galluogi i'w rhoi mewn trefn yn ôl pwysigrwydd.

Mae trefn y gwasanaethau yn ôl pwysigrwydd pobl Gwynedd yn dangos bod "Casglu Gwastraff ac Ailgylchu" yn drydydd yn ôl eu cyfanswm sgôr.

Hefyd, roedd cyfle i ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau pellach mewn blwch agored ar ddiwedd yr holiadur. Derbyniwyd 90 o sylwadau (yr ail mwyaf) ynghylch "angen gwell gwasanaeth hel sbwriel / baw ci / ailgylchu". Mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yma

Fel rhan o'r Ymchwiliad Craffu ar Orfodaeth Gwastraff, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda myfyrwyr o Brifysgol Bangor i drafod eu defnydd o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu. Nodwyd nid yw rhai myfyrwyr yn ailgylchu mewn tai a rennir. Ymysg yr anawsterau o fyw gyda grŵp o bobl newydd yw bod rhai yn gydwybodol ac eraill ddim. Nodwyd for problem gyda phobl yn cerdded heibio ac yn defnyddio biniau pobl eraill yn anghywir e.e. bocsys pitsa ar ôl nosweithiau allan. Yn ychwanegol, y neges a gafwyd yn gryf oedd nad yw landlordiaid yn cymryd cyfrifoldeb am rannu gwybodaeth am y trefniadau ailgylchu gyda myfyrwyr ac nad ydynt yn darparu digon o gyfleusterau ailgylchu. Roedd teimlad y dylid rhoi mesurau yn eu lle i addysgu pobl - a thargedu'r ardaloedd sy'n tramgwyddo fwyaf yn gyntaf. Cydnabuwyd bod y rhai sy'n peidio cadw at y trefniadau yn y modd cywir yn ei wneud oherwydd eu bod yn anwybodus / ddim yn trafferthu a nodwyd bod rhai pobl yn cael trafferth gyda phlastigion ac ymwybyddiaeth o beth ellir ac na ellir ei ailgylchu. Nodwyd y gallai ailgylchu fod yn anodd i fyfyrwyr tramor. Byddai hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod y trefniadau yn newydd iddynt ac efallai na fyddent yn ymwybodol o beth ellir ei ailgylchu a gallai'r iaith ffurfiol a ddefnyddir eu hystyried yn rhwystr hefyd.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda grŵp o unigolion sydd yn mynychu sesiynau DementiaGo yng Nghanolfannau Byw'n Iach Gwynedd a grŵp ffocws gyda unigolion sy'n mynychu sesiynau atal codymau. Nododd nifer fawr o'r grŵp eu bod wedi sylwi bod y staff sy'n gwagio'r cartgylchu yn gosod y blwch uchaf y tu mewn i'r blwch canol unwaith y mae'r cart wedi ei wagio, a gofynnwyd pam bod hyn yn digwydd. Nodwyd fod y bocs uchaf yn aml yn mynd yn sownd ac nid ydynt yn ddigon cryf i'w tynnu felly gofynnwyd a fyddai'n bosib i'r staff peidio â gwneud hyn? Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio sticer ar gyfer y rheiny nad ydynt am i'r cartgylchu gael ei gadael yn y ffordd yma ar ôl cael eu gwagio.
Nododd nifer nad oeddent yn siŵr o ble i roi rhai eitemau e.e. ym mha focs mae foil yn mynd?

Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch cartonau, potiau blodau a phlastigion du. Nodwyd fod pawb yn y grŵp yn defnyddio'r bin gwastraff bwyd a'r bocsys ailgylchu. Codwyd nifer o gwestiynau ynglŷn â phlastigion meddal. Roeddent yn ymwybodol na ellir ailgylchu plastig meddal a gofynnwyd a oes gan y Cyngor unrhyw syniadau neu fentrau ar gyfer y rhain yn hytrach na gwaredu yn y bin gwastraff gweddilliol. Roeddent yn hoffi'r taflenni gwybodaeth wedi'u lamineiddio oedd ar gael yn y sesiynau ac roedd yr unigolion yn y grŵp DementiaGo yn teimlo bod y rhain yn arbennig o ddefnyddiol gan eu bod wedi colli eu cof tymor byr.

Hefyd fel rhan o'r ymchwiliad, dosbarthwyd holiadur yn ystod Ffair Groeso Prifysgol Bangor ac yng Nghynhadledd Pobl Hŷn Gwynedd a derbyniwyd 23 o ymatebion i'r holiadur.
Noder fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu (83%, sef 19 o bobl). Penderfynwyd un ymatebydd i beidio ateb y cwestiwn.

Gofynnwyd i'r rhai oedd wedi nodi 'na' (3 o bobl) egluro eu hateb. Nododd 2 person eu bod yn byw yn neuaddau'r Brifysgol, ac eu bod nhw ddim yn defnyddio'r trefniadau am eu bod yn cael trafferth efo'r casgliadau ailgylchu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr "Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu?" - sef cartgylchu neu focs glas, y bin bach brown ar gyfer bwyd, y bin mawr brown ar gyfer gwastraff gardd, a'r bin mawr gwyrdd ar gyfer y gwastraff gweddilliol.

Noder fod y mwyafrif o ymatebwyr yn defnyddio'r trefniadau casglu gwastraff ac ailgylchu pob wythnos (83%, sef 19 o bobl). Gofynnwyd i'r rhai oedd ddim yn gwneud defnydd llawn o'r trefniadau (3 o bobl) egluro eu hateb. Y rhesymau a roddwyd oedd: Byw yn safle Ffriddoedd, Prifysgol Bangor (1), Dim ond yn rhoi'r cartgylchu allan pan maent yn llawn (1), Colli bin / cartgylchu (1).

Gofynwwyd i'r ymatebwyr "Ble ydych chi'n cadw eich biniau ar ddiwrnodau pan nad ydynt yn cael eu casglu?" Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cadw'r biniau cefn neu ochr y tŷ(11 o bobl). Derbyniwyd nifer o ymatebion i'r cwestiwn yma:

| | **Nifer** |
|---|---|
| Cefn / ochr y tŷ | 11 |
| Blaen y tŷ | 5 |
| Nodi problem<br>• Dydi'r myfyrwyr ddim yn gwneud - tai / mynedfa / gardd / grisiau anaddas. (1)<br>• Grisiau yn broblem, dim lle i'w gadael a phasio, felly (cadw'r biniau) ar y stryd. (1) | 2 |
| Ar y grisiau | 1 |
| Darn o dir | 1 |
| Safle ger y Neuadd (Prifysgol Bangor) | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Dim ateb | 2 | |
| **Cyfanswm** | 23 | |

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Gweithgor wedi casglu tystiolaeth o nifer o ardaloedd ac wedi gwneud ymweliadau safle ym Mangor ac ym Mhorthmadog.

Nodwyd gan Aelodau'r Gweithgor fod y profiad o gael ymweld â gwahanol leoliadau wedi bod yn un gwerthfawr iawn i'r ymchwiliad. Nodwyd fod Bangor yn amlwg yn sefyllfa unigryw, bryderus. Porthmadog wedi amlygu "y norm".

Sylwadau am ymweliadau pellach:

- Gwastraff Gwledig – awgrym i gofnodi problemau a thynnu lluniau yn hytrach nag ymweld. Problemau yn codi ar hap, dim yr un dwysedd a Bangor.
- Bod 146 o leoliadau biniau cymunedol (ym Meirionnydd fwyaf). Y drefn ar y cyfan yn gweithio. Ymddengys cynnydd o ddefnydd yn yr Haf.
- Bod mwy o gwynion yn cael eu derbyn o dipio slei bach.

Cwblhawyd holiadur gyda myfyrwyr yn ystod yr wythnos groeso "wythnos y glas". Gofynnwyd i'r myfyrwyr am eu hymwybyddiaeth o'r gwahanol liwiau ar y biniau ac os oeddent yn gwybod pa fathau o wastraff sy'n mynd ym mhob bin. Gofynnwyd hefyd a oeddent yn gwahanu eu gwastraff, os oeddent yn gwybod pryd y casglir eu biniau a hefyd gofynnwyd iddynt ble roedd eu biniau'n cael eu cadw ar ddiwrnodau pan nad yw'r biniau yn eu casglu.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi / gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Negyddol | Negyddol - mae nifer o fyfyrwyr o dramor, sydd ddim yn defnyddio Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf yn byw yn ardal Bangor. Ar hyd o bryd, nid ydym yn creu taflenni a chalendrau mewn ieithoedd gwahanol ond byddwn yn gweithio gyda'r Undeb Myfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr o dramor yn deall y trefniadau gwastraff ac ailgylchu. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Dim effaith, bydd popeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Anabledd** | Positif a negyddol | Negyddol - gallai gosod dirwyon heb ystyried anghenion gwahanol achosi problemau i bobl anabl sy'n ei chael yn anodd symud y biniau neu ddim yn deall y trefniadau. Hefyd mae angen ystyried pobl sy'n defnyddio BSL a'r rhai sydd yn methu defnyddio'r gwasanaeth yn y ffordd gywir oherwydd salwch.<br><br>Positif - mae'r ymchwiliad yn cynnwys defnyddio pwerau ar gyfer y rhai sy'n gadael eu biniau allan ar y stryd trwy'r amser. Mae pobl anabl, yn arbennig defnyddwyr cadair olwyn yn cael hi'n anodd defnyddio'r palmentydd pan mae biniau'n achosi rhwystr. Dylai defnyddio'r hawliau achosi llai o rwystrau i'r bobl yma.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Casglu Arbennig ar gael yn bresennol i bobl sydd ddim yn gallu mynd â'u biniau neu focsys ailgylchu allan i'r man casglu oherwydd anabledd neu salwch. Mae trefniadau arbennig mewn lle ar gyfer casglu gwastraff clinigol yn wythnosol.<br><br>Argymhellir y dylid cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o ymgyrch hyrwyddo ehangach. |
| **Rhyw** | dim | Nid ydym wedi adnabod effaith |
| **Oedran** | Positif | Positif - Mae'r ymchwiliad yn cynnwys defnyddio pwerau ar gyfer y rhai sy'n gadael eu biniau allan ar y stryd trwy'r amser. Mae rhai pobl hŷn a rhieni hefo pramiau yn cael hi'n anodd defnyddio'r palmentydd pan mae biniau'n achosi rhwystr. Dylai defnyddio'r hawliau achosi llai o rwystrau<br><br>Gweler hefyd yr adran ar anabledd gan fod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod yn anabl. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid ydym wedi adnabod effaith |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | dim | Nid ydym wedi adnabod effaith |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Nid ydym wedi adnabod effaith |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Nid ydym wedi adnabod effaith. Mae trefniadau arbennig mewn lle ar gyfer casglu clytiau yn wythnosol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Nid ydym wedi adnabod effaith |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?** (Dylid dileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | **Ydi** | Positif - mae'r sefyllfa bresennol yn dangos bod nifer o drigolion a busnesau yn gadael biniau allan yn barhaol ac yn achosi rhwystr ar ffyrdd a phalmentydd.<br><br>Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd ac weithiau'n amhosibl i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl â phramiau i ddefnyddio'r palmentydd.<br><br>Negyddol - mae rhaid rhoi rhywbeth yn ei le i sicrhau fod rhai grwpiau e.e. pobl anabl, pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith gyntaf, pobl hŷn ddim yn cael eu heffeithio'n negyddol drwy derbyn dirwyon oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o'r trefniadau yn hytrach na diffyg cydymffurfio. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **Ydi** | Fel yr uchod |
| **Meithrin perthnasau da** | **Ydi** | Bydd hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y grwpiau hefo nodweddion cydraddoldeb sy'n cael eu heffeithio gan y biniau allan ar y strydoedd drwy'r amser, a'u cymdogion ayyb. |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| |

| |
|---|
| Ydy. Mae'r sefyllfa bresennol yn dangos bod nifer o drigolion a busnesau yn gadael biniau allan yn barhaol ac yn achosi rhwystr ar ffyrdd a phalmentydd.<br><br>Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd ac weithiau'n amhosibl i ddefnyddwyr cadair olwyn a phobl â phramiau i ddefnyddio'r palmentydd. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Efallai na fydd rhai trigolion yn deall y trefniadau oherwydd bod y pamffledi a chalendrau yn anodd eu deall. Mae rhaid ystyried bod unigolion sydd â salwch penodol hefyd yn ei chael hi'n anodd dilyn y trefniadau. Byddwn yn ymgysylltu gyda phobl sy'n byw gyda dementia er mwyn darganfod be yw'r rhwystrau presennol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewisiwch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | √ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Bydd yr Adran yn ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth cyn gweithredu unrhyw newidiadau. Mae'n bwysig sicrhau fod pobl yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yn barod e.e. y gwasanaeth casglu arbennig. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Byddwn yn diweddaru'r asesiad yn ôl yr angen wrth lunio'r polisi. |